

Polisi Goruchwyllo



Nod

Sicrhau awrygylch diogel, parchus ac hapus yn yr ysgol bob amser.

Cyffredinol

Ni ddylid gadael plant heb eu goruchwyllo ar unrhyw adeg.

Yn y dosbarth

Os yw'r athrawes yn gorfod gadael y dosbarth am unrhyw reswm rhaid gwneud trefniadau fod rhywun yn goruchwyllo'r plant.

Cyn yr ysgol

* Caiff plant y Clwb Brecwast gyrraedd o 8:10 a cant eu goruchwyllo gan oruchwylwyr Clwb Brecwast yn y neuadd. Ni chaiff y plant adael y neuadd heb ganiatod a bydd o leiaf dwy oruchwylwraig yn y neuadd drwy gydol yr amser.

* Anogir rhieni i beidio dod â'u plant i'r ysgol cyn 8:50 yn y bore, onibai eu bod yn mynd i'r Clwb Brecwast.

* Bydd yr athrawon yn gyfrifol am y plant sydd yn eu dosbarthiadau o 8:50 ymlaen a hynny yn yr ystafelloedd dosbarth.

Amseroedd Chwarae

* Bydd athrawes a chymhorthyddion ar ddyletswydd cyfnod egwyl, ac mae amserlen bendant yn nodi hyn. Byddant yn mynd o gwmpas yr iard/cae yn goruchwyllo, sgwrsio a chwarae gyda'r plant.

* Cyfrifoldeb yr athrawon dosbarth yw sicrhau fod eu plant i gyd allan yn ystod amser chwarae.

* Os yw'r tywydd yn anffafriol bydd y plant yn aros yn eu dosbarthiadau a bydd y personau ar ddyletswydd yn goruchwyllo.

* Ni ddylid gadael i unigolion o du allan i'r ysgol grwydro o gwmpas yr iard yn ystod amseroedd chwarae, onibai fod ganddynt drefniant i wneud hynny.

Amser Cinio

* Bydd goruchwylwyr ar yr iard/cae pob amser cinio. Byddant yn mynd allan gyda'r plant yn syth bin.

* Os yw'r tywydd yn anffafriol bydd yr oruchwylwyr yn goruchwyllo plant yn eu dosbarthiadau.

* Bydd goruchwylwyr yn adrodd yn ôl i'r Pennaeth os oes unrhyw broblem wedi codi yn ystod yr awr ginio a gwneir cofnod ysgrifenedig ohonynt.

* Ni ddylid gadael i unigolion o du allan i'r ysgol grwydro o gwmpas yr iard yn ystod amseroedd cinio, onibai fod ganddynt drefniant i wneud hynny.

Ar ôl ysgol

Bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hebrwng i fynedfa'r Cyfnod Sylfaen gan eu hathrawes neu gymhorthydd.

Bydd plant blwyddyn 3 a 4 yn cael eu hebrwng i'r brif fynedfa'r gan eu hathrawes neu gymhorthydd.

Bydd plant blwyddyn 5 a 6 yn cael eu hebrwng i'r giât wrth y ffordd gan eu hathrawes neu gymhorthydd.

Ar ôl trosglwyddo'r plant i'w rheini/goruchwylwyr, nid yw'r athrawon a chymorthyddion yn gyfrifol am y plant.

Os yw rhieni plant blwyddyn 5 a 6 am i'w plant gerdded adref eu hunain, rhaid trefnu hyn o flaen llaw drwy lythyr.

Mae asesiad risg wedi ei greu i leihau risg amsereoedd chwarae a cinio. Bydd yn cael ei ddilyn gan yr holl staff a plant a'i ddiweddarau fel bo'r angen.

Mabwysiadu: Tymor yr Hydref 2013

Cadeirydd: _____

Pennaeth: _____

Dyddiad: _____

Dyddiad adolygu y polisi: _____